Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Seiont A Pheblig
Cil Peblig
Noddfa
Caernarfon
LL55 2RS

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Seiont a Pheblig, sydd yn cwrdd yng Nghanolfan Noddfa, Caernarfon, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r lleoliad yn agor am bum niwrnod yr wythnos, rhwng 9.10yb a 2.45yp, ac mae yno ddeg ymarferwr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu derbyn hyd at 26 o'r plant ar unrhyw adeg benodol, ac mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a thair oed. Mae Dechrau'n Deg yn ariannu'r plant dwy flwydd oed.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig a'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, mae ychydig o'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ar ei swydd ym mis Medi 2013. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Mehefin 2014 a chan Estyn ym mis Mawrth 2010.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn dangos cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd o'u mannau cychwyn
- llawer o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac yn ymddwyn yn gyfrifol
- ymarferwyr yn cydweithio'n gyson i ddarparu gweithgareddau cyffrous a difyr, sy'n gwella dysgu'r plant
- yr addysgu'n effeithiol
- gofal gwyliadwrus yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol
- defnydd cyson yr holl ymarferwyr o'r Gymraeg yn cael effaith sylweddol ar fedrau llefaru a dealltwriaeth y plant
- ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn ennyn diddordeb ac ysgogaeth y plant yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn rhoi cyfeiriad clir i waith dyddiol a thymor hir y lleoliad
- cymorth synhwyrol y pwyllgor rheoli yn cynnal darpariaeth lwyddiannus, sicrhau rheolaeth drylwyr o'r cyllid a monitro cyson o arferion yr arweinydd a'r ymarferwyr
- systemau arfarnu yn ystyried safbwyntiau pawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad
- hyfforddiant ymarferwyr yn effeithiol ac yn dylanwadu'n fuddiol ar yr addysgu
- defnydd pwrpasol o wasanaethau cymorth o fudd i blant ac yn effeithio'u lles yn gadarnhaol
- partneriaethau positif gyda rhieni, gofalwyr, ysgolion lleol ac asiantaethau allanol yn cefnogi'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol

## Argymhellion

A1 Cynllunio gweithgareddau heriol ar gyfer y plant mwyaf galluog

A2 Sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau'n rheolaidd

A3 Creu cyswllt cyson rhwng yr hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad o fannau cychwyn sydd yn is na'r cyfartaledd. Maent yn gweithio gyda'i gilydd a gydag oedolion yn llwyddiannus i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae llawer o'r plant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion yn bwrpasol, heb anogaeth gan oedolion, mewn chwarae anffurfiol ac yn ystod tasgau ffocws. Maent yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardaloedd darllen, tu mewn a thu allan, fel darllenwyr ifanc hyderus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb yn ddeallus i holi ymarferwyr. Gwelir hyn yn ystod gweithgareddau torfol fel ymateb i stori ac wrth drafod taith tegan electronig yn synhwyrol. Wrth ymateb i gynnwys llyfrau mewn parau, maent yn deall diben y lluniau ac yn trafod cymeriadau cyfarwydd yn effeithiol. Mae llawer o'r plant yn deall bod gwahanol emosiynau a theimladau yn bodoli ac yn perthyn i gymeriadau unigol, fel adnabod y blaidd fel y dihiryn yn stori'r tri mochyn bach.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau yn effeithiol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau yn bwrpasol â phrofiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio sialc ar fyrddau du, eu bysedd yn y tywod a phensiliau ar bapur i ymarfer rhifau a llythrennau'n llwyddiannus. Mae llawer o'r plant hŷn yn adnabod eu henwau eu hunain ac mae ychydig iawn o'r plant yn dechrau ffurfio llythrennau a rhifau mewn ffurfiau adnabyddadwy.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol wrth iddynt chwarae drwy ddefnyddio morthwyl i hoelio siapiau gwahanol i fwrdd a mesur taldra eraill â thâp mesur. Mae llawer o'r plant yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i bump yn annibynnol. Mae lleiafrif ohonynt yn cyfrif i ddeg a thu hwnt yn gywir wrth ddidoli siapiau a gwrthrychau a defnyddio blociau i greu tŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall gwahaniaethau mewn maint wrth archwilio trychfilod, gwenith, pridd a darnau pren gyda chwyddwydrau. Maent yn esbonio'n llwyddiannus y gwrthrychau 'mawr' a 'bach', 'tal' a 'byr', a hefyd os yw gwrthrych yn 'ganolig' o'i gymharu â'r lleill.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg yn llwyddiannus ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson heb anogaeth gan oedolion. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canu hwiangerddi a chaneuon dyddiol yn y Gymraeg yn frwdfrydig. Maent yn defnyddio technoleg yn dda wrth ymateb i heriau â llechi a theganau electronig, tiliau, chwaraewr cryno ddisg a bwrdd gwyn rhyngweithiol. O ganlyniad, mae eu defnydd o feddalwedd addysgol i ddatblygu eu medrau meddwl a TGCh yn bwrpasol.

Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau yn effeithiol i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, maent yn defnyddio glud a gwellt i greu llun o dŷ un o'r moch bach a chwistrellu dŵr o liwiau gwahanol i greu murlun ar bapur yn yr ardal allanol. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth yn astud ac

yn ymateb yn frwdfrydig i ganeuon wrth ddawnsio yn y neuadd a chreu synau gydag amrywiaeth o offerynnau taro. Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol pan fyddant yn dringo a llithro ar gyfarpar allanol a gyrru cerbydau gwahanol a beiciau yn yr awyr agored.

**Lles: Da**

Mae llawer o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac yn gweithio'n annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dewis yn feddylgar pa feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau. Maent yn esbonio'n synhwyrol pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt ac os dymunant weithio yn yr adeilad neu yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau mynegi eu barn a'u hoffterau personol yn effeithiol. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn penderfynu parhau â thasg benodol neu ddechrau gweithgaredd newydd o'u dewis eu hunain.

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Maent yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio'n ddiwyd yn ystod tasgau. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau ym mhob maes dysgu ac mae llawer o'r plant yn rhannu a gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, er enghraifft wrth ddefnyddio bocs golau i ddysgu am rifau a llythrennau ac arbrofi â chafnau dŵr.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb i oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n synhwyrol ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn brwsio eu dannedd gyda'i gilydd a phan fyddant yn eistedd yn eu tro i fwyta byrbrydau. Ar ôl defnyddio'r toiled a chwarae bawlyd, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb anogaeth gan ymarferwyr, sy'n dangos eu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd glendid.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n gyson i ddarparu gweithgareddau cyffrous a difyr i'r plant. Maent yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu dysgwyr annibynnol. Maent yn darparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu cyffrous, sy'n adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol ac i ymhelaethu ar eu profiadau personol. Enghreifftiau defnyddiol yw'r ymchwilio pwrpasol yn yr ardal allanol wrth blannu a thyfu blodau, mefus a thatws a chwarae rolau'n annibynnol yng nghegin y caffi.

Mae'r holl ymarferwyr yn gwella'r profiadau i blant trwy drafodaethau rheolaidd. Maent yn trefnu'r gweithgareddau'n ddoeth ac yn cynnwys cyfleoedd i drafod, ymateb i lyfrau, creu marciau ac ymarfer â rhifau a siapiau ym mhob ardal ddysgu. Mae'r gweithgareddau amrywiol hyn yn adeiladu'n bwrpasol ar frwdfrydedd y plant wrth iddynt ymroi'n llwyr i dasgau ffocws a dysgu trwy chwarae. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn darparu'n gydwybodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant.

Mae ymarferwyr yn targedu diddordebau'r plant yn synhwyrol. Mae'r broses gynllunio yn sefydlog ac yn deillio'n effeithiol o asesiadau'r ymarferwyr i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Mae'r cyswllt â'r broses asesu yn glir ac yn arwain at dargedu grwpiau penodol o'r plant sydd angen cymorth, yn enwedig wrth geisio gwella eu medrau iaith. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer gweithgareddau yn herio'r plant mwyaf galluog i gyflawni ar eu gorau ar bob achlysur.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd heriol i ddefnyddio ystod o offer fel bwrdd gwyn rhyngweithiol, chwaraewr cryno ddisg, teganau a llechi electronig. Mae'r ymarferwyr yn cymell y plant yn gyson i ddefnyddio'r meddalwedd addysgol yn y Gymraeg i ddatblygu eu synnwyr o'r iaith a'u medrau TGCh cynnar. O ganlyniad, mae'r plant yn defnyddio'r cyfarpar yn hyderus ac ystyrlon.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau corfforol y plant. Maent yn cynnig cyfleoedd iddynt ddringo a llithro ar gyfarpar anturus a chwarae'n fywiog ar feiciau a cherbydau tebyg yn yr awyr agored. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu medrau corfforol y plant yn bwrpasol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol iawn i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau da o'r iaith. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol sy'n cynnwys caneuon a heriau ieithyddol yn yr ardaloedd chwarae rôl. Maent yn holi'n feddylgar, sy'n ysgogi'r plant i ymateb yn synhwyrol a phwrpasol. Effaith hyn yw bod llawer o'r plant yn ymateb â geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. Maent yn rhifo, enwi lliwiau ac adnabod siapiau yn ddeallus a hyderus mewn amser byr. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n sylweddol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, ymweld â chestyll a ffermydd lleol, coginio cawl cennin a phobi cacennau.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r profiadau'n cynnwys teithiau i gastell y dref, ffermydd lleol, archfarchnadoedd, y goedwig a'r parc, a busnesau cyfagos. Mae ymwelwyr fel hylenyddion deintyddol, swyddogion o'r gwasanaethau brys, milfeddyg a swyddogion diogelwch y ffyrdd yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned.

## Addysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau cadarn ac maent yn herio'r rhan fwyaf o'r plant yn llwyddiannus yn ystod tasgau ffocws a thasgau parhaus. Gan amlaf, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cymhelliant y plant yn uchel. Mae cyflwyniadau'r ymarferwyr yn fywiog, sy'n sbarduno a chynnal diddordebau'r plant yn effeithiol.

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant. Maent yn wybodus ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac yn cydweithio'n effeithiol. Mae'r

holl ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus yn yr holl weithgareddau dyddiol.

Mae'r ymarferwyr yn synhwyro'n dda pryd i ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae'r plant, sy'n effeithio'n bositif ar awydd y plant i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn ysgogi ac arwain y plant at lwyddiannau'n gyson. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau gydag arllwys dŵr, tra'n ymchwilio i rediad dŵr drwy gafnau ac wrth iddynt esbonio nodweddion gwahanol anifeiliaid i'w gilydd wrth chwarae â'r fferm yn yr ardal byd bach.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant yn gyson i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae a sicrhau bod y plant yn cylchdroi'n rheolaidd i brofi pob maes dysgu. Maent hefyd yn holi'r plant yn bwrpasol i ddatblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Gwneir hyn yn llwyddiannus wrth drafod trefn rhifau ar wyneb cloc, penderfynu ar synau gwahanol offerynnau yn yr ardal gerddoriaeth a choginio gyda phartneriaid yn y gegin fwd.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn effeithiol. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y Cyfnod Sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn ystod gweithgareddau. O ganlyniad, maent yn defnyddio asesiadau dyddiol yn gyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Fodd bynnag, nid yw'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn llyfrau cofnodi'r awdurdod lleol, sy'n arwain at ormodedd o gofnodion gan yr arweinydd.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn effeithiol am gyflawniadau eu plant. Mae'r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr yn cefnogi hyn. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i rieni ynglŷn â chynnydd eu plant.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r arweinydd a'r holl ymarferwyr yn creu amgylchedd myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i blant feddwl, trafod teimladau a dweud diolch. Effaith hyn yw bod plant yn distewi i wrando ar stori, cymryd eu tro'n ddeallus a rhannu cyfarpar. O ganlyniad, mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau'n synhwyrol wrth olchi dwylo, arllwys diod, dewis a rhannu byrbrydau a llinellu i symud i'r neuadd. Mae'r systemau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol, fel amser byrbryd ac amser stori, i feithrin y gwerthoedd hyn. Maent yn sicrhau bod y plant yn ystyried teimladau cyfoedion yn ddeallus, yn trin ei gilydd yn deg ac yn parchu eraill, gan gynnwys yr oedolion.
Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, bwyd, dillad, nwyddau plastig, tuniau, boteli ac i gompostio yn yr ardal allanol. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus. Yn ogystal,

mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel. Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r defnydd o strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad afreolus.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn ddiwyd pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad ac yn ystod eu cyfnod yno. Maent yn defnyddio systemau asesu yn effeithiol i ymateb i anghenion unigolion. Maent yn cyfeirio plant ar unwaith at asiantaethau arbenigol os oes angen ymyrraeth benodol ac yn darparu cymorth un i un pan fo'r angen yn codi. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd, nodi eu mannau cychwyn yn gydwybodol trwy ddilyn canllawiau proffil y Cyfnod Sylfaen a gweithredu cefnogaeth bwrpasol i blant anghenus.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn pwysleisio'n gyson ein bod ni'n byw mewn cymdeithas sy'n cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy ei weithgareddau dyddiol ac agweddau synhwyrol yr ymarferwyr. Maent yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieiniaid yn flynyddol, darllen storïau moesol am Affrica, defnyddio doliau er mwyn trafod nodweddion gwahanol ddiwylliannau a blasu bwydydd o bob cwr o'r byd.

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth glir o anghenion y plant ac mae'r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol. Caiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn herio a chefnogi plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol a gofalus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws ac i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau ar lefel ymarferol i bob un o'r plant, tu mewn ac yn yr awyr agored, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae'n ddiogel. Mae pob ardal ac ystafell sydd ar gael iddynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r ymarferwyr hefyd yn defnyddio cyfleusterau'r ardal leol yn synhwyrol, fel yr ystad, y dref, y goedwig a busnesau cyfagos.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn bodloni anghenion y plant ac yn dathlu eu cyflawniadau'n llwyddiannus. O ganlyniad, mae amcanion, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddarparu profiadau effeithiol i'r plant.

Mae'r arweinydd yn brofiadol ac mae hi'n rheoli tîm o ymarferwyr sefydlog, ymroddgar, brwdfrydig a theg. Mae hi'n defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth. Mae ei gweledigaeth yn sicrhau'n ddyddiol bod yr addysgu a'r dysgu yn brif ffocws er mwyn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus. Effaith hyn yw bod ganddi ddisgwyliadau uchel o ran yr ymarferwyr a'r plant, sy'n cymell pawb at welliannau mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys cyfraniad y pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddiddorol a phwrpasol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn ac yn gweithio'n ddiwyd fel tîm. Mae arferion goruchwylio a gwerthusiadau blynyddol cadarn yn ddefnyddiol ac yn gwneud y gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae'r arweinydd a'i thîm yn canolbwyntio'n gydwybodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd a llwyddo gyda gofynion newydd y proffil Cyfnod Sylfaen.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd ac maent yn chwarae rhan ymarferol ym mywyd dyddiol y lleoliad. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau codi arian a monitro'r cyllid yn gyson. Mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r lleoliad yn synhwyrol i gynnal arferion cyson a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli, dan arweiniad yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro deilliannau'r plant a'r ddarpariaeth. Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu a gwelliannau cyson yn treiddio trwy waith y lleoliad.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn flynyddol trwy system feintiol yr awdurdod lleol, yn ogystal â gwerthusiadau'r pwyllgor rheoli, yn cyfrannu'n effeithlon at yr hunanarfarnu. Maent hefyd yn ystyried barn ymarferwyr, rhieni a gofalwyr a Mudiad Meithrin yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau ystyrlon dros amser, fel datblygu'r cyfleoedd i blannu yn yr ardal allanol a gwella'r systemau asesu. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r cyswllt rhwng y meysydd i'w gwella yn yr hunanarfarnu â thargedau'r cynllun datblygu yn anghyson.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Maent yn cytuno'r targedau gyda'r ymarferwyr ac yn gweithredu'r newidiadau'n bwrpasol ar y cyd.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Dechrau'n Deg a swyddog cyswllt Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu'n rheolaidd ar eu cyngor. Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel defnyddio'r proffil Cyfnod Sylfaen i wella arferion asesu, nodi mannau cychwyn perthnasol ar gyfer y plant a chynnal cefnogaeth gan asiantaethau arbenigol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n llwyddiannus gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. O ganlyniad, mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae ymarferwyr yn eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i'w gwella trwy holiaduron a thrafodaethau rheolaidd. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn yn hybu dysgu'r plant yn llwyddiannus trwy ymweliadau, ymwelwyr a chefnogaeth ariannol. O ganlyniad, mae'r gefnogaeth yn fuddiol i'r lleoliad wrth gynnig am gyfarpar a grantiau perthnasol.

Mae cysylltiadau cadarnhaol gyda'r ysgolion lleol. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio'r plant gyda'r camau nesaf yn eu dysgu yn bwrpasol. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn fuddiol i'r plant wrth iddynt ymgynefino â'u hysgolion newydd.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol, Dechrau'n Deg a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu'r partneriaethau cadarnhaol sy'n bodoli. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi trwy ddarparu dogfennaeth ddefnyddiol a hyfforddiant effeithiol. Mae ymarferwyr hefyd yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, datblygiadau'r Cyfnod Sylfaen a diogelu plant. Mae'r cysylltiadau defnyddiol hyn yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn anelu'n gyson at wella pob agwedd o waith y lleoliad. Mae'r arweinydd diwyd a'r pwyllgor rheoli cefnogol yn defnyddio arferion pwrpasol i alluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys trwy ddarparu hyfforddiant cyflawn. Defnyddir ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau'n effeithlon.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn effeithlon ac yn sicrhau profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn greadigol i gefnogi dysgu. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o neuadd y ganolfan am weithgareddau corfforol a'r ardal allanol i ymholi, ymchwilio a chwarae'n fywiog.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a'r heriau sydd ynghlwm â hi. Maent yn blaenoriaethu gwariant a defnyddio grantiau yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol. Mae gofalwyr a rhieni hefyd yn cyfrannu'n gyson i gyllido'r lleoliad, trwy ddigwyddiadau cymunedol i godi arian. O ganlyniad, maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella'n bwrpasol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant.

Mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu gadarnhaol, sydd â diwylliant o wella cyflawniadau'r plant trwy ddarpariaeth effeithiol, cydweithio pwrpasol â phartneriaid ac arweinyddiaeth lwyddiannus. Felly, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 28 | 23 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 28 | 25 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 28 | 23 | 5 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 28 | 22 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 28 | 16 | 9 | 1 | 0 | 2 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 57% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 71% | 28% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 28 | 23 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 82% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 28 | 23 | 4 | 0 | 1 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 82% | 14% | 0% | 4% | | |
| | | 83% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 27 | 20 | 6 | 0 | 1 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 74% | 22% | 0% | 4% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 27 | 22 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 25 | 16 | 5 | 0 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 64% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 28 | 21 | 6 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 75% | 21% | 0% | 4% | | |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 28 | 23 | 4 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 82% | 14% | 4% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 28 | 15 | 9 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 54% | 32% | 7% | 4% | | |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 28 | 19 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 68% | 25% | 4% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 28 | 20 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 71% | 25% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 28 | 23 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 18% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

## Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |